PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 157 | Rhif 21 | Mai 23, 2024 | 50c.

# Bethlehem Newydd



Mae'n siŵr eich bod wedi cael y profiad wrth deithio trwy Gymru o weld capeli wedi'u cau a'u gadael i ddadfeilio. Darlun trist iawn o ddirywiad Anghydffurfiaeth a thystiolaeth bod cynnal a chadw capeli wedi mynd yn faich i gynulleidfaoedd sy'n heneiddio. Hwyrach y gall y lluniau hyn o gapel Bethlehem Pwll-trap ar ei newydd wedd gynnig gobaith mewn cyd-destun heriol.

### Gwerthu

Wrth edrych i'r dyfodol fel gofalaeth o bedair eglwys penderfynwyd bod gennym ormod o adeiladau. Yn hytrach na gweld hyn fel rhwystr fe'u hystyriwyd yn adnoddau gwerthfawr. Ond roedd yn rhaid cael cydweithrediad ymddiriedolwyr i gau dau gapel a'u gwerthu, proses hir sy'n rhaid ei gyflawni yn ofalus a sensitif. Gweithred dewr yw bod yn barod i gau'r drws am y tro olaf ar gartref ysbrydol a mangre bedyddio, priodi a chladdu i'r teulu. Ond dyna a ddigwyddodd.



### Meini tramgwydd

A dyma ddod wyneb yn wyneb â dau gorff sydd yn benderfynol o oedi'r broses. Y Comisiwn Elusennau sy'n gorff wedi hen oroesi ei ddefnyddioldeb ac yn gwrthod ymateb i unrhyw ymholiad a chyfreithwyr sy'n mynnu dewis y llwybr mwyaf araf a chostus o weithredu. Peidiwch â gadael iddyn nhw reoli'r broses. Mae yna ffordd o wneud hyn ond dw i ddim yn bwriadu ei osod ar bapur, rhag ofn! Dydy'r problemau ddim yn gorffen yn y fan hon yn anffodus. Mae corff arall sy'n benderfynol o greu rhwystrau dianghenraid yn enwedig os yw'r adeilad sy'n weddill wedi ei gofrestru. Y cyngor sir sydd wedi creu proses gynllunio er mwyn gohirio'r gwaith adeiladu a'ch gorfodi i wario miloedd o bunnoedd.



### Buddsoddi ac Arloesi

Ydy hyn i gyd yn werth y drafferth? Os oes gennych chi aelodau hyblyg sy'n barod i dorchi llewys ac adeiladydd sy'n ymroddedig, yna, ydy yn ddigwestiwn. Edrychwch ar y lluniau sy'n dangos gofod aml-bwrpas a chysurus gydag addoliad yn ganolog iddo. Diolch i'r drefn y mae Undeb yr Annibynwyr wedi'n galluogi i gyflogi Swyddog Cymunedol fydd yn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r adnodd gwerthfawr hwn gan agor y drysau led y pen i groesawu a chenhadu.

Mae angen inni ganu clodydd Undeb yr Annibynwyr am y weledigaeth o fuddsoddi ag arloesi, neu fyddai dim pwynt inni fod wedi mynd trwy'r broses hirfaith hon.

**Rhodri Glyn Thomas**

# Capel yr Erw, Cellan

Ar ddydd Sul 14 Ebrill bu dathlu yng Nghapel yr Erw, Cellan. Roedd yr aelodau am ddymuno pen-blwydd hapus i Mary Jones yn 80 oed a datgan eu gwerthfawrogiad iddi am ei gwasanaeth clodwiw fel organyddes ers 65 mlynedd.

Cyflwynodd Eirios Jones (ysgrifenyddes) dusw o flodau i Mary a rhoddodd Glyndwr Jones (trysorydd) siec iddi ar ran yr aelodau.

Diolchwn i Mary am ei gwasanaeth wrth yr organ a dymunwn iechyd a hapusrwydd iddi i'r dyfodol. Pen-blwydd Hapus iawn!



# Gair gan Aled

Mae'r misoedd o'n blaenau yn rhai o gymdeithasu a chrwydro pan y medrwn. Ambell dro daw pobl annisgwyl a dieithr i'n hysbrydoli a'n cyfeirio. Gwerddonau o bobl ynghanol prysurdeb bywyd. Yn sgîl mynd i Ŵyl y Gelli flynyddoedd yn ôl, mi ges i aros yn ardal Michaelchurch yn nyffryn Escley. Dyffryn tawel a chymdogol ar odre'r Mynydd Du. Er ein bod yn Swydd Henffordd roedd yr enwau yn gyfarwydd Trewern, Tŷ Caradog, Coedpoeth, Croes y Ceiliog, Dulas.

### Cyd-ddigwyddiadau

Gŵr o'r fro yn wreiddiol a groesawodd fi i'w gartref, un o gefndir hollol wahanol i mi. Cafodd yrfa yn y fyddin, a soniodd am ysgariad a newidiodd ei fywyd. Ymhelaethodd am ddau achlysur pan oedd o wedi gweddïo, a gweddi'n peri goleuni i un sefyllfa, a dim datblygiad i un arall. Edrychai yntau ar ôl eglwys Michaelchurch, ac fe gododd filoedd i adfer murlun canoloesol yn yr eglwys a oedd mor agos at ei galon. Murlun heriol a phrin o Grist ar y Groes ac o'i amgylch arwyddion o wahanol grefftau o bob math. Dywedwyd bod rhybudd yn y murlun rhag ymarfer y crefftau ar y Sabath. Mi rannodd hefyd ei hoff ddyfyniad â mi gan gyn Archesgob Caergaint, William Temple: 'Pan dwi'n gweddïo mae cyd-ddigwyddiadau'n digwydd. Pan dwi ddim yn gweddïo, dydyn nhw ddim.' Cyd-ddigwyddiadau Duw oedd ganddo mewn golwg, sy'n britho a goleuo bywyd bob dydd, os rown gyfle iddynt.

Tybed ydan ni'n tiwnio i mewn i gyd-ddigwyddiadau Duw yn ein bywydau? Ydyn ni yn gweddïo ddigon i weld patrwm yn eglurach? Mi ddois i o'r Gelli bryd hynny, yn llawn brwdfrydedd wedi bod ynghanol y byd llenyddol. Ond hefyd fe ddois i yn ôl o'r Gelli gyda her a'm sbardunodd i, sef geiriau gŵr o Michaelchurch:

'Pan dwi'n gweddïo mae cyd-ddigwyddiadau'n digwydd. Pan dw i ddim yn gweddïo, dydyn nhw ddim.'

### Gweddi'r Mai di-goll

Diolch O Dad am y 'Mai di-goll' y cyfeiriodd fy nhaid ato
mewn cerdd, wrth edrych ar
odidowgrwydd mis Mai yn Ardudwy.
Mis pan mae'r synhwyrau ar eu miniocaf
wrth i'r Gwanwyn droi'n
Haf. Bydd y byd yn blodeuo, a'r awel yn
fwynach, ond eto gyda
digon o gic ynddi i'n hatgoffa nad yw'r
Haf yn ei anterth eto.

Mis y deffroad, a phopeth yn flynyddol ar ei orau, ac yn ei
ogoniant, Diolch am gysgod y dail ar y
coed o'r newydd - yn
cysgodi rhag haul tanbaid y dyddiau sy'n
smalio eu bod yn haf
yn barod. Diolch am y ffresni a'r
adnewyddiad yn y greadigaeth,
ac ynom ninnau hefyd.

Diolch Dduw am roddi Mai di-goll oddi mewn i bob un
ohonom ni, a'n tanio drachefn â gobaith
ac awydd, a chip ar yr
orwel dragwyddol honno, yn ei gogoniant.
Er ergydion a
phrofiadau byd a bywyd, cofiwn am y Mai
di-goll sydd bob amser
yng nghalonnau bob un ohonom, ond i ni
ei chanfod, a chymryd
amser i werthfawrogi ei rin oesol. **Amen.**

**Aled Lewis Evans**
(allan o *Shalôm* Capel y Groes ac Ebeneser Wrecsam, Mai–Mehefin 2024, rhif 505)



**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

## Y Cyfarfodydd Blynyddol 2024

**Prifysgol De Cymru, Trefforest**
**11–13 Gorffennaf**

Rhaid i rybudd o bob penderfyniad sydd i'w gyflwyno yn y gynhadledd eleni gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn 30 Mai, fan pellaf, wedi ei lofnodi gan ei gynigydd a'i eilydd.

## PROSIECT DENMAN 2024

Eleni gwahoddir ysgolion Sul i ddefnyddio'u dychymyg a'u doniau creadigol i greu podlediad / hysbyseb / fideo / unrhyw beth cyfrwng digidol byr (hyd at 5 munud o hyd) neu waith celf ar y thema:

### Ein hysgol Sul: 'Dysgu am Iesu.'

Roedd Iesu'n dysgu'r bobl am Dduw drwy gyfrwng damhegion. Sut ydych chi'n dysgu am Iesu Grist a'i neges?

Anfoner eich cynnyrch digidol at rhodri@annibynwyr.cymru a'r cynnyrch celf at Elinor yn Nhŷ John Penri, 5 Axis Court, Glanyrafon, Abertawe SA7 0AJ erbyn dydd Iau, 13 Mehefin 2024.

Caiff cyflwyniad o'r holl gyfraniadau ei ddangos yn ystod ein Cyfarfodydd Blynyddol yn Nantgarw ym mis Gorffennaf.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Thŷ John Penri: 01792 795888 neu undeb@annibynwyr.cymru

Yr Adran Gydenwadol

MAI 23 2024 RHIF 169

# Cyfle i weddïo drwy'r Salmau






Ers canrifoedd bu Llyfr y Salmau yn gyfrwng cysur ac ysbrydoliaeth i laweroedd. Dwi'n siŵr fod nifer ohonom wedi dysgu'r salmau ar ein cof, ac wedi cael bendith a nerth wrth eu dwyn i gof. Yn ogystal, cafwyd casgliad o emynau Cymraeg yn seiliedig ar y salmau, yn nodedig gan Edmwnd Prys. Ac yn fwy diweddar cawsom gampwaith yng nghyfrol Gwynn ap Gwilym, *Salmau Cân*, a roddodd i ni 150 o emynau gan ddilyn pob un o'r salmau fel ysbrydoliaeth.

Yn Saesneg, cafwyd nifer o gyfrolau gweddi yn ogystal, yn ein harwain drwy bob salm yn ei thro. Ond, hyd y gwyddom, ni chafwyd casgliad Cymraeg o weddïau ar yr holl salmau – tan rŵan! Ers nifer o flynyddoedd bu'r Parchedig Euros Jones Evans wrthi'n ddiwyd iawn yn paratoi cyfrol arbennig. Ac fe welodd y gyfrol hon, sef *Gweddïo'r Salmau,* olau dydd mewn cyfarfod lansio a gynhaliwyd yng Nghapel Providence, Llangadog, nos Wener, 3 Mai.



Braf oedd wedi gweld llond capel wedi dod ynghyd, yn deulu a ffrindiau – rhai wedi teithio o ogledd a gorllewin Cymru ac o Loegr ar gyfer yr achlysur. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch. Aled Davies, ar ran y cyhoeddwyr, Cyhoeddiadau'r Gair, gan estyn croeso i bawb. Cyflwynodd gopi o'r gyfrol i'r awdur, a braf oedd clywed gan Euros ei hun, a rannodd ei stori ffydd â ni, a'i alwad i'r weinidogaeth. Nododd ei bod yn union hanner can mlynedd ers iddo ddechrau pregethu. Aeth ymlaen i sôn am y gyfrol, a gwerth defnyddio salm i bwrpas gweddi. Diolchodd Aled iddo am ei gymwynas fawr yn mynd ati i baratoi'r casgliad cyflawn o weddïau ar y salmau, gan sôn am y fendith y byddai hynny'n ei ddwyn i gynifer o addolwyr dros Gymru gyfan.

Cawsom flas o'r gyfrol wrth i Eiry Wyn Bellis, merch Euros, ac yna'r Parchedigion Rhys Locke a Gwilym Wyn Roberts ddod ymlaen i ddarllen gweddi yr un, yn seiliedig ar Salmau 1, 103 a 71. Wedi eu plethu rhwng y gwahanol gyfraniadau cafwyd eitemau cerddorol



myfyrdodol: gan Ioan, ŵyr i Euros; gan y ddeuawd Beti a Siân o'r grŵp Perlau Taf gynt; ac yna gan gôr meibion Bois y Castell o dan arweinyddiaeth Nia Clwyd – côr y bu Euros ei hun yn aelod ohono am 15 mlynedd.

Roedd yn lansiad defosiynol iawn, a thystiodd nifer i'r awyrgylch arbennig yn y capel. Wedi cyhoeddi'r fendith fe'n gwahoddwyd i gyd i fwynhau lluniaeth helaeth wedi ei baratoi gan Gegin Fach y Wlad.

Mae'r gyfrol bellach ar gael yn eich siop lyfrau Gymraeg leol, pris £14.99.

**Dyma un o'r gweddïau o'r casgliad, yn seiliedig ar Salm 23:**

## Gweddi Salm 23

Gweddi Gynulleidfaol
Awdur: Dafydd
Thema: Yma mae Duw yn cael ei ystyried fel bugail gofalus ei braidd. Ef yw ein hunig obaith am fywyd tragwyddol a diogelwch. Gweddi sy'n diolch i'r Arglwydd am y cyfan hyn yw hon. Addas ar gyfer angladd.

Ein Tad nefol, gallwn ddweud gyda'r salmydd,
'Yr Arglwydd yw fy mugail,
ni bydd eisiau arnaf.'
Ti, y grym mwyaf sy'n bod;
ti y Gwaredwr,
ti yw gofalwr personol bob un ohonom;
ti sy'n edrych ar ôl ein holl anghenion beunyddiol.

Rwyt ti'n sicrhau
y cawn ran yn y pethau da a wnei drosom.
Mewn byd sy'n llawn straen a lludded,
rwyt ti wedi trefnu cyfnodau
lle gallwn orwedd a gorffwyso.

Ar adegau fel hyn,
pâr inni fwrw ein meddyliau'n gyfan gwbl arnat ti;
pâr inni ddarllen dy air sanctaidd,
ac i'th addoli mewn ysbryd a gwirionedd
er mwyn inni gael ein diwallu yn ysbrydol.
Adfywia ni, O Arglwydd;
adfer ni,
a chyfanna ein heneidiau drylliedig.

Pan dueddwn i grwydro oddi ar y llwybr
yr wyt ti'n dymuno inni ei gerdded,
gofynnwn am dy arweiniad i'n cadw ar y ffordd iawn.
Gwyddom fod dy gymeriad a'th enw da di
yn dibynnu arnom ni.

Gwyddost, O Arglwydd,
am gyfnodau anodd yn ein bywydau
pan fyddwn yn cerdded ar hyd llwybrau tywyll,
ond diolchwn y gall y sawl sy'n ymddiried ynot
gael y sicrwydd o'th ofal;
y sicrwydd o'th gwmnïaeth,
a'r addewid o'th bresenoldeb
fel y gallwn ddweud yn hyderus,
'nid ofnaf niwed,
canys rwyt ti gyda mi,
dy wialen a'th ffon a'm cysura.'
Yn wir wrth orfod teithio'r llwybr olaf unig,
bydd dy law yn ein cynnal
ac yn dileu ein hofnau.


Boed inni ddal gafael yn y gobaith a'r addewid
y byddi'n paratoi gwledd inni
yn nydd 'priodas yr Oen'.
Diolch mai yn enw Iesu Grist,
Bugail mawr ein heneidiau,
y cawn ein gwahodd;
diolch mai'r rhai sy'n dal tystiolaeth Iesu Grist
yw'r gwahoddedigion.
Felly, O Arglwydd,
dyro inni'r awydd i'th addoli'n fwy ffyddlon nag erioed,
fel y gallwn breswylio 'yn nhŷ'r Arglwydd yn dragywydd'.
AMEN






# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




**Pennod 26**
**Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr – Nepal**

### Darlleniad: Actau 16: 6–10
‘Tyrd drosodd i Facedonia, a chymorth ni.’ (adnod 9)

### Gweddi
Ymostyngwn yn dy gwmni, ymdawelwn ger dy fron,
Dyro inni glywed d’eiriau fydd yn llenwi’r funud hon;
Boed i’n horiau a’n holl ddyddiau brofi hedd wrth nofio’r don. Amen.

### Cyflwyniad
Bydd yr adran a ddarllenwyd gennym yn cael ei hadnabod fel y bont a groesodd o Asia i Ewrop. Roedd Paul a Silas wedi ymweld â’r egwysi a sefydlwyd ar y daith genhadol gyntaf, ac yna roedd yr Ysbryd Glân wedi eu harwain i fynd tua’r gorllewin. Dyna oedd argyhoeddiad Paul, ac yna cafodd brofiad rhyfeddol o deimlo Duw yn ei arwain i fynd i Facedonia a chyflawni gwaith Duw yno. Pa mor aml y byddwn yn ymwybodol o anogaeth Duw yn cynnig arweiniad i ni, yn bersonol ac fel eglwysi? Breuddwyd gafodd Paul, ond gweledigaeth gafodd Pedr yn Actau 10. Daw llais Duw atom mewn gwahanol ffurfiau, ond byddwn yn gwybod mai ufuddhau sydd raid.

Bydd llawer yn gyfarwydd â’r dweud bod gweinidog yn cael ei alw i’r weinidogaeth, a defnyddir yr un term wrth sôn am wahoddiad eglwys neu ofalaeth i weinidog fod yn arweinydd iddynt. Gall yr un ddelwedd gael ei defnyddio ar gyfer sawl cyfrifoldeb arall oddi mewn i’r eglwys neu hyd yn oed oddi allan iddi.

### Myfyrdod
Byddwn yn ymwybodol o waith ‘cenhadon’ a bod y bobl sy’n eu cynnig eu hunain i dderbyn hyfforddiant yn ymwybodol o law Duw yn eu cyfeirio. Mae Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr yn defnyddio’r term ‘gweithwyr’ yn hytrach na ‘chenhadon’ ers sawl blwyddyn bellach, gan fod natur y gwaith yn wahanol. Yn y ddeunawfed ganrif a’r bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd y cenhadon yn mynd allan i ddysgu’r iaith frodorol ac yna i bregethu a cheisio sefydlu cynulleidfaoedd ac eglwysi.

Yn ddiweddarach, byddai athrawon yn teimlo’r alwad ac yn mynd i weithio mewn ysgolion, ymaelodi yn yr eglwys leol, ac yn cynnig arweiniad a chefnogaeth i’r eglwys honno. Yn yr un modd, byddai meddygon a nyrsys yn cael eu cymell i wasanaethu. Bu gan y Presbyteriaid yng Nghymru brofiadau cyfoethog gyda rhannau o India; bydd yr Annibynwyr yn hoffi sôn am hanesion trist neu gyffrous yn Madagasgar, a’r Bedyddwyr yn hapus i sôn am Timothy Richard yn China.

Erbyn hyn, mae gan y ‘gweithwyr’ amrywiaeth o ddoniau eraill, a than yn ddiweddar bu’r Tabernacl yng Nghaerdydd gyswllt gwerthfawr â theulu Helen ac Angus Douglas oedd yn gweithio yn Kathmandu. Eu gwaith oedd cefnogi’r eglwysi, heb fod yn weinidogion yn ystyr arferol y gair. Ceir enghreifftiau tebyg ym mhob eglwys ac enwad.

Arferid meddwl am y genhadaeth fel gwasanaeth oes, ond nawr gall y gweithwyr roi tymor byrrach o wasanaeth, weithiau ar ôl ymddeol yn gynnar. Bu llawer o Gymry’n gweithio dramor, a hynny o bob math o gefndiroedd yn cynrychioli sawl enwad. Tybed faint o bobl o Gymru sydd heddiw’n barod i ddefnyddio ychydig flynyddoedd i fynd dramor i gynorthwyo eglwysi yno? Byddai’r profiad o dreulio chwe mis dramor yn cefnogi tystiolaeth eglwysi byrlymus yn ein trawsnewid ninnau hefyd. Beth amdani?

### Gweddi
Diolch, Arglwydd, dy fod wedi galw pobl ar draws y cenedlaethau a’r cyfandiroedd i fod yn dystion ac yn arweinwyr yn dy enw di. Ni allwn ddychmygu profiadau’r bobl hyn, ond credwn iddynt ymateb yn ddidwyll i’th anogaeth a’th arweiniad. Galw bobl o’r newydd i gynnig arweiniad i’th eglwysi – ac os mai dyna fyddo dy bwrpas, Arglwydd, galw ni. Amen.

### Cwestiynau i’w hystyried
1. Pa wedd o hanes Philip a’r eunuch sydd fwyaf diddorol, yn eich tyb chi?
2. Ydych chi’n adnabod pobl sy’n awyddus i wybod mwy am hanfodion Cristnogaeth?
3. A yw ‘sôn am Iesu’ yn dod yn naturiol i ni?
4. Nodir bod Philip wedi mynd ar unwaith. Tybed fyddem ni’n chwilio am esgus i beidio mynd?
5. Beth yw ein syniad ni o waith cenhadol dramor heddiw?

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 26 Mai, am 7.30yh**
**Afon Tywi**
Ymunwch â Rhodri Gomer wrth iddo ddilyn taith ysbrydol o’r mynydd i’r môr drwy dirlun cyfareddol dyffryn Tywi. Ymhlith ei westeion y bydd esgob newydd Tyddewi, Dorrien Davies. Ac fe gawn ni wledd o emynau gan rai o fawrion y fro, yn cynnwys Williams Pantycelyn.


BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 26 Mai, am 7:30yb a 12yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Rhun ap Robert

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 26 Mai, am 4.30yp**
Oedfa Eisteddfod yr Urdd dan ofal Euron Hughes

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# James Gilmour 1843–91

## *Cenhadwr ym Mongolia*



Os bu enghraifft erioed o Gristion yn dyfalbarhau yn wyneb aflwyddiant, James Gilmour oedd hwnnw. Wynebodd galedi enbyd wrth geisio rhannu'r newyddion da am Iesu. Dyma grynodeb o'i hanes.

Ganwyd James Gilmour yn Cathkin, plwyf Carmunnock, nid nepell o Glasgow, ar 12 Mehefin 1843. Ef oedd y trydydd o chwe mab i James ac Elizabeth Gilmour. Roedd ei dad yn saer ac roedd amgylchiadau ariannol y teulu yn gyffyrddus. Ar y Sul mynychent eglwys gynulleidfaol yng Nglasgow. Addysgwyd Gilmour yn ysgol Bushyhill yn Cambuslang, ysgol ieuenctid Gorbals yng Nglasgow ac ysgol uwchradd Glasgow. Ym 1862 dechreuodd fynychu dosbarthiadau ym Mhrifysgol Glasgow lle y dangosodd fedrusrwydd mawr gyda Groeg a Lladin. Tra'r oedd yng Nglasgow cafodd dröedigaeth ac aeth i goleg diwinyddol yr Eglwys Gynulleidfaol yng Nghaeredin. Yno fe'i derbyniwyd i fod yn genhadwr gyda Chymdeithas Genhadol Llundain (London Missionary Society) ac fe'i hanfonwyd i Goleg Cheshunt, canolfan hyfforddi'r LMS, lle y bu hyd 1869.



### Mongolia

Anfonwyd ef gan yr LMS i ailagor cenhadaeth ym Mongolia. Bu William Swan ac Edward Stallybrass yn cenhadu gyda'r Mongoliaid Buryat yn Siberia o 1817 ymlaen ond ataliwyd y gwaith gan yr awdurdodau Rwsiaidd ym 1840. Llugoer oedd ymateb Gilmour ar y dechrau i'r ffaith ei fod yn cael ei anfon i ardal mor anghysbell i weithio ymhlith Bwdhyddion lamaidd. Er hynny penderfynodd fynd ac fe'i hordeiniwyd yn Eglwys Awstin, Caeredin, ar 10 Chwefror 1870 a theithiodd i Tsieina. Cyrhaeddodd Peking (Beijing) ym mis Mai lle y cyfarfu â Dr John Dudgeon a Joseph Edkins. Cynghorwyd ef i aros yno am dair blynedd yn dysgu Tsieinëeg a Mongoleg ond penderfynodd ef, o ganlyniad i gyflafan y Tientsin (Tianjin), fynd i Fongolia. Ar ei daith gyntaf teithiodd gyda masnachwyr Rwsiaidd i Kiakhta oedd ar y ffin â Rwsia. Arhosodd yno am gyfnod mewn yurt gyda Lama (person, nid yr anifail) lle y dysgodd Fongoleg. Ym 1871 dychwelodd i Peking a'r flwyddyn ddilynol aeth ar ail daith i ardal amaethyddol gogledd ddwyrain Mongolia.

### Crwydriaid y gwastadeddau

Wedi cloriannu'r posibiliadau penderfynodd ganolbwyntio ei waith efengylu ar grwydriaid y gwastadeddau gan fod eu pebyll bob amser yn agored i ddieithriaid. Golygai hynny y gallai gymysgu'n rhwydd gyda hwy. Yr anhawster mawr a wynebodd trwy gydol ei yrfa oedd nad oedd y Mongoliaid na'r Rwsiaid yn awyddus iddo aros ym Mongolia. Yn ystod y cyfnod o ugain mlynedd y bu yno defnyddiai Peking fel canolfan barhaol er mwyn mynd ar deithiau blynyddol i Fongolia. Teithiodd gan fwyaf yn ardal Kalgan ar ffin Tsieina ar gefn camel gan grafu byw mewn pebyll a thafarndai llwm. Byddai'n mynd am fisoedd ben bwy'i gilydd heb weld unrhyw bobl eraill o'r gorllewin. Mabwysiadodd hefyd ddiwyg a dillad Mongolaidd.

Yn ddiweddarach yn ei yrfa teithiai gyda phabell las gan ei gosod gerllaw temlau Bwdïaidd. Yna byddai'n pregethu'r Efengyl ac yn dosbarthu moddion.

### Iselder

Effeithiodd yr unigrwydd a'r diffyg ymateb arno ac fe anfonodd adroddiad yn ôl i'r LMS ym 1873 yn dweud: 'Rwyf yn y felan.' Ym 1874 cyfaddefodd nad oedd unrhyw Fongol wedi dod i gredu yn Iesu Grist ac nad oedd wedi dod ar draws unrhyw un oedd ag unrhyw ddiddordeb yn y pwnc. Daeth yn gyfarwydd iawn ag arferion a thraddodiadau'r Mongoliaid ac ysgrifennodd amdanynt, o dan y ffugenw Hoinos a olygai 'yr un o'r gogledd', yn y *Chinese Recorder* a gyhoeddwyd yn Shanghai.

### Priodi

Dechreuodd ohebu gydag Emily Prankard, cenhades gyda'r London Missionary Society yn Peking, ac fe briododd y ddau yn Shanghai. Am gyfnod, hyd nes iddynt gael plant, byddai ei wraig yn mynd gydag ef ar ei grwydradau trwy Fongolia. Er y gwaith caled nid oedd unrhyw Fongol wedi derbyn yr Arglwydd Iesu. Ym 1882 daethant am yr unig seibiant a gawsant ym Mhrydain fel teulu.

Cyhoeddodd y Religious Tract Society *Among the Mongols* yn seiliedig ar erthyglau Gilmour a bu ymateb rhagorol i'r gyfrol. Wedi dychwelyd i Fongolia wynebodd ragor o siomedigaeth oherwydd diffyg ymateb a arweiniodd at iselder ysbryd, ac ar ben hyn bu farw ei wraig ym 1885 a'i fab ieuengaf ym 1887.

Yn y diwedd aeth y cwbl yn drech nag ef. Cafodd anhwylder meddwl a dychwelodd i Brydain ym 1889 i wella gan aros gyda theulu yn Hamilton. Flwyddyn yn ddiweddarach dychwelodd i Fongolia ond fe'i trawyd yn sâl gyda typhus a bu farw ar 21 Mai 1891 yn Tientsin ac yno y claddwyd ei weddillion. Codwyd cofeb wenithfaen er cof amdano yn Hamilton.


**Capel Coffa, Cyffordd Llandudno**

Ysgrifennydd Cyffredinol
Capel Coffa yw:


D. Glyn Williams, Lliwen,
12 Coed y Glyn, Llandudno LL30 1JL.

Rhif ffôn: (01492) 581439

Symudol: 07866 126072

E-bost:
davidglynwilliams01@gmail.com

# Barn Annibynnol




*Plac ar blatfform yng ngorsaf Amwythig (llun gan Menna Lloyd Williams)*

## GORSAFOEDD A CHAPELI

Mae gorsafoedd trenau yn bethau rhyfedd, ac ar y wyneb yn gallu bod yn llefydd dienaid ac oeraidd iawn. Maen nhw'n gyffredinol blaen, heb fawr o chwerthin yn yr awyr, ac yn aml mae hi'n ymddangos fod pawb sydd yno yn weddol ddi-serch tuag at eu cyd-deithwyr. Yn ei hanfod, mae pawb sydd yno'n lladd amser, ond gyda rhyw bwrpas cyffredin sydd wedi eu dwyn nhw at ei gilydd. Efallai y dywedech chi fod gorsaf drenau yn ddarlun o'r hyn yw eglwys farwaidd ar ei gwaethaf.

Fodd bynnag, mae i bob gorsaf drenau ei stori ei hunan. Yno bu dagrau gwahanu parau wrth iddo fe fynd i ryfel neu hithau fynd bant i weithio, neu gyffro ailuno teuluoedd wedi cyfnod rhy hir ar wahân. I fi yn Nhrefforest heddiw, oer oedd yr orsaf, ond mae'n bosib mai jyst i fi oedd hwnnw. O'm hamgylch efallai roedd rhai yn profi cyffro dechrau swydd newydd neu gwrdd â hen ffrind.

Rwy'n tybio fod pobl sydd heb ymlymiad capel yn edrych ar ein hadeiladau bocsys Fictoriana cerrig ac yn eu gweld yn yr un ffordd ag yr wyf fi'n gweld gorsafoedd yn oeraidd, heb weld y rhamant, y cariad na'r cynhesrwydd.

### Tair gorsaf, tair stori

#### Efailisaf

Caewyd gorsaf drenau Efailisaf pan o'n i'n fabi. Mieri oedd yn tyfu o'r trac a'r platfform erbyn fy ieuenctid, ac mae'r mieri yno o hyd. Prin yw'r bobl yn ein pentref sydd yn cofio'r orsaf cyn i Beeching ei chau. Ond i'r rheiny sydd yn cofio, mae ganddyn nhw atgofion o'r stesion-master a'i droli pedair olwyn yn dod i'w cartrefi i gasglu eu cesys ar ddiwrnod mawr eu gwyliau haf. Byddai'r teulu wedyn yn mynd lawr i'r orsaf yn waglaw i ddal eu trên, a'u cesys yn cael eu rhoi ar y trên yn ddiogel gan y steshonmaster ei hunan. Dyddiau dedwydd, ond rhai sy'n golygu bron dim i'n cenhedlaeth ni.

#### Embankment

Mae i bob gorsaf ei stori, fel y mae stori i bob capel. Yn Llundain, mae menyw sy'n mynd bob dydd ar y tiwb er mwyn eistedd ar blatfform yng ngorsaf Embankment, dim ond i wrando ar y cyhoeddiad 'Mind the Gap' ar yr uchelseinydd. Recordiwyd y neges i bob gorsaf yn Llundain gan ei gŵr yn 1950. Wedi ei farwolaeth yn 2003, ac yn ei galar, darganfu Dr Margaret McCollum ei bod yn cael cysur o eistedd ar feinciau mewn gorsafoedd amrywiol jyst i glywed llais Oswald a'i recordiad adnabyddus o 'Mind the Gap.' Mae'n debyg i Margaret ddod o hyd i ffordd o deimlo agosatrwydd at Oswald, er ei fod wedi mynd. Fodd bynnag, ychydig amser wedi ei farwolaeth, fe gafodd ei lais ei ddisodli gan recordiad electronig digidol newydd i holl orsafoedd Llundain. Diflannodd llais cynnes, cyfarwydd Oswald o'r uchelseinydd. Yn ei galar ysgrifennodd Margaret at yr awdurdodau yn holi am gael tâp casét o'i gŵr i'w galluogi i barhau i wrando ar ei lais, a hynny yn ei chartref. Ond, pan ddeallodd rheolwyr y tiwb yr hanes trist, penderfynodd y cwmni adfer y cyhoeddiad gan Oswald yn yr orsaf agosaf i gartref Margaret, gorsaf Embankment, ar linell y Gogledd. Hyd heddiw gall pob teithiwr glywed llais Oswald Laurence yn y fan honno. O'r tu allan mae hi'n orsaf oer, ddienaid, ond yn ei chanol mae stori serch i gynhesu'r galon.




#### Amwythig

Dros y blynyddoedd, bydd nifer ohonoch, fel fi, wedi aros (weithiau'n hir) am drenau yn yr Amwythig. Dyma orsaf lle teimlais i wynt oer y gogledd sawl tro ar ganol gaeaf. Y syndod ar un o'r nosweithiau hynny oedd dod o hyd i'r plac ar blatfform 3 sy'n nodi mai yn y fan honno y cyfansoddodd Arwel Hughes ei gampwaith emynyddol 'Tydi a roddaist'. O'r lle hesb, dienaid ac oeraidd, daeth tiwn a ysbrydolodd genedlaethau erbyn hyn.

Mae gorsafoedd, fel ein capeli, yn aml yn ymddangos yn llwydaidd, ac i'r rhai sy'n anghyfarwydd â nhw, yn oer a dienaid. Ond daw bywyd iddyn nhw o wybod eu storïau. Byddai'n dda gwybod beth mae ein capeli a'n heglwysi yn ei wneud i ledu ein storiau tu hwnt i'n muriau llwyd. Storiau o gynhesrwydd dynol, i roi lliw a theimlad lle gwêl ein cymdeithas ôl-Gristnogol adeiladau gormesol, gan ddod â chynhesrwydd a lliw lle mae'n cymunedau yn gweld bocsys tywyll ag oer.

**Geraint Rees**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

**Dyma gyfle i ymuno mewn cyfres o sesiynau fydd yn archwilio Addoli a Phregethu, ac yn eich arwain ar daith drwy'r Beibl.**

**Addoli a Phregethu**

Tiwtor: Parchedig Carwyn Siddall

Mae gwahanol fathau o addoliad, yn cynnwys addoliad pob oed, gwasanaethu mewn ysgolion, a gwasanaethau byr wrth ymweld ag aelwydydd. Mae cynnwys addoliad hefyd yn gallu amrywio, megis oedfa bregethu, oedfa pryd y gweinyddir un o'r sacramentau, neu oedfaon ar gyfer achlysur penodol megis priodas neu angladd.

Bydd y modiwl hwn yn rhoi cyfle i archilio'r amrywiol fathau, ac ystyried sut y dylid mynd ati i baratoi ac arwain oedfaon o wahanol fathau.

**Dyddiadau:** 20, 27 Mai, 3, 10, 17, 24 Mehefin, 1, 8 Gorffennaf.

**Amser a Lleoliad:** 7:00 - 8:00 o'r gloch yr hwyr, ar Zoom.

**Deall yr Ysgrythurau: Y Beibl**

Tiwtor: Arfon Jones

Yn allweddol i'r ffydd Gristnogol mae'r hyn a ddatguddir i ni drwy Air Duw, ac a gofnodir yn y Beibl. Drwy'r modiwl hwn, cynigir cyfle i'r sawl sy'n dilyn y modiwl gael dealltwriaeth ddyfnach o agweddau gwahanol o gynnwys y Beibl, ac astudio themâu penodol ohono.

**Dyddiadau:** 3, 10, 17, 24 Mehefin, 1, 8, 15, 22 Gorffennaf.

**Amser a Lleoliad:** 8:00 - 9:00 o'r gloch yr hwyr, ar Zoom.

**Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno yn y sesiynau uchod, a gellir dilyn un ohonynt yn unig, neu'r ddau.**

**Dyma'r modiwlau disgwyliedig ar gyfer cymhwyso fel pregethwyr cynorthwyol cydnabyddedig hefyd. Os mai dyna eich dymuniad, nodwch hynny wrth gofrestru.**

**I gofrestru ar gyfer y sesiynau hyn, neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Parchedig Carwyn Siddall, Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau Undeb yr Annibynwyr Cymraeg: carwyn@annibynwyr.cymru**

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**
**39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,**
**Caerdydd, CF23 9BS**
***Ffôn:* 02920 490582**
***E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru**

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc**
**Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe**
**ABERTAWE SA7 0AJ**
***Ffôn:* 01792 795888**
***E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru**

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# HOLI'R PWNC YM MHANT-TEG

Mae'r achos Annibynnol ym Mhant-teg, sy'n ddwfn yn y bryniau i'r gogledd-ddwyrain o Gaerfyrddin, gyda'r hynaf yn Sir Gâr. Mae'n dyddio 'nôl i 1669 a chyfnod yr Erlid Mawr. Mae'r gymanfa bwnc hefyd yn hen draddodiad. I'r rhai na fu mewn achlysur o'r fath erioed, mae'r gynulleidfa yn darllen 'y pwnc', sef rhai adnodau o'r Beibl, a'r person sy'n y pulpud yn eu holi nhw.

### Ffydd a gweithredoedd

Ar ddechrau Wythnos Cymorth Cristnogol, roedd y thema bod ffydd heb weithredoedd yn ddi-werth yn un amserol. (Math. 7:21–29 a Iago 2:15–20). Roedd aelodau yno o Bant-teg, Peniel a Bwlch-y-corn, sef cylch y gymanfa ers blynyddoedd lawer, i ateb cwestiynau gan yr holwr gwadd, Alun Lenny. Cyn hynny cafwyd cyflwyniad hyfryd gan blant ysgol Sul Peniel am hanes Noa. Testun amserol o gofio'r holl law a gafwyd eleni tan yn ddiweddar! Ar ddiwedd yr oedfa, cafodd pawb gyfle i gael lluniaeth ysgafn a chymdeithasu yn y festri i gloi prynhawn hyfryd iawn ym Mhant-teg.






# 'Gofalu am Acer Duw' 8–16 Mehefin 2024

Mae'r wythnos hon yn gyfle i ganolbwyntio ar y bywyd gwyllt anhygoel sydd o fewn ein mynwentydd a'n gerddi fel capeli ac eglwysi (ac unrhyw ddarn o dir arall sydd gennych o ran hynny). Mae yn brosiect blynyddol ar y cyd rhwng Caring for God's Acre, A Rocha UK, Yr Eglwys yng Nghymru ac Eglwys Lloegr. Y bwriad yn ystod yr wythnos hon yw annog aelodau o'n heglwysi i drefnu digwyddiadau a gweithgareddau sy'n ymwneud â byd natur.




Mae'r gweithgarwch hwn yn agored i eglwysi pob enwad ac felly gofynnwn i chi annog eich aelodau i gymryd rhan. Gall hyn fod yn gyfle gwych i wahodd pobl o'r gymuned leol i mewn i'n heiddo – pobl nad ydynt yn dod ar gyfyl y capel a'r eglwys fel arfer. Rydym eleni yn edrych am fwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau yng Nghymru.

### Adnoddau

Mae'r wybodaeth a'r adnoddau i gyd ar wefan www.caringforgodsacre.org.uk yn cynnwys syniadau am ddigwyddiadau, taflenni gweithgareddau, asesiadau risg, logos a deunyddiau gyda'r brandio (Cymraeg hefyd) a llawer mwy. Fe all y gweithgarwch fod yn daith natur, tacluso, arddangosfeydd neu adeiladu cartrefi i fywyd gwyllt (bocsys adar, neu dai i ddraenogod ac ati). Gall eglwys unigol ei gynnal neu gellir cydweithio gyda grŵp natur lleol e.e. ymddiriedolaeth natur lleol. Gellir cofrestru yn rhad am ddim ar y wefan uchod.

Byddai'n hyfryd clywed yr hanes gan yr eglwysi am y gweithgareddau a gynhaliwyd ganddynt.

**Delyth Higgins**
*Swyddog Cymru A Rocha*

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*